At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2018

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 RHAGFYR 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 20 Tachwedd 2018 (copi'n amgaeedig).

**5 CORFF CYMERADWYO (SAB) DRAENIO CYNALIADWY (SUDS)** (Tudalennau 13 - 24)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi'n amgaeedig), ynghylch y gofyniad deddfwriaethol i'r Cyngor gynnal rôl Corff Cymeradwyo (SAB) y System Draenio Cynaliadwy (SuDS), a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo pwerau i swyddogion sefydlu a gweithredu'r SAB.

**6 CYNLLUN COMISIYNU ATAL DIGARTREFEDD / CEFNOGI POBL 2019-22** (Tudalennau 25 - 66)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth (copi'n amgaeedig), yn ceisio cymeradwyaeth ymlaen llaw i Gynllun Comisiynu Atal Digartrefedd / Cefnogi Pobl 2019 - 22 drafft, cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ac i Lywodraeth Cymru.

**7 STRATEGAETH CYSYLLTEDD DIGIDOL GOGLEDD CYMRU A RHAGLEN RHWYDWAITH FFIBR LLAWN LLEOL** (Tudalennau 67 - 126)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig), yn diweddaru'r Cabinet ar y gwaith digidol a wnaed hyd yn hyn gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer awdurdodi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

**8 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 127 - 142)

I ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 143 - 148)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sy'n amgaeedig, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem busnes canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**10 DYLUNIAD GWASANAETH AILGYLCHU A GWASTRAFF NEWYDD ARFAETHEDIG A GOFYNION ISADEILEDD CYSYLLTIEDIG (DEPO)** (Tudalennau 149 - 228)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi'n amgaeedig), sy'n manylu ynghylch canlyniad y modelu a wnaed i nodi'r model gweithredu newydd gorau ar gyfer gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, a cheisio penderfyniad aelodau ar addasrwydd y dyluniad gwasanaeth newydd arfaethedig.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned